Campus Services
Gwasanaethau'r Campws

# Croeso i Dde Tal-y-bont a Llys Tal-y-bont





## Casglu Allwedi

Bydd modd casglu allweddi o dderbynfa Tŷ Southgate ar safle Tal-y-bont; mae'r dderbynfa hon yn **Nhŷ Southgate, Bevan Place, Caerdydd CF14 3AT**.

Mae'r dderbynfa ar agor rhwng 08:00 a 22:00, ddydd Llun i ddydd Gwener, ac eithrio gwyliau banc, a rhwng 09:00 a 22:00 ar benwythnosau. Bydd allweddi ar gael i'w casglu ar ôl 15.00.

Os byddwch yn cyrraedd y tu allan i oriau'r dderbynfa neu ar ŵyl y banc, cysyllltwch â'r Tîm Cynadleddau a Digwyddiadau er mwyn gwneud trefniadau eraill. I'r rheini sydd wedi gwneud cynlluniau i gyrraedd yn hwyr cysyllтwch â'r tîm Diogelwch ar ôl cyrraedd: +44 (0) 29 20 87 4444.

Ar gyfer pob ymholiad, cais cynnal a chadw a phost yn ystod eich arhosiad, ewch i dderbynfa De Tal-y-bont, sydd wedi'i leoli yn Llys Talybont. Mae'r swyddfa ar agor rhwng 08:00 a 18:00, o ddydd Llun i ddydd Gwener.

## Parcio

Y cyntaf i'r felin fydd hi wrth barcio ar y campws. Bydd angen i chi gerdded ychydig i'ch llety o'r prif faes parcio sydd wedi'i leoli yng Ngogledd Tal-y-bont, a rhaid talu am barcio.

Am fanylion ar sut i gadw lle ymlaen llaw a thalu am barcio, gweler Parcio i Breswylwyr
Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau, e-bostiwch conference@caerdydd.ac.uk

## Gwybodaeth Leol

Os byddwch yn teithio ar fws neu drên, mae'n cymryd tua 40 munud i gerdded o orsaf Caerdydd Canolog i dderbynfa Tŷ Southgate. Cathays yw'r orsaf agosaf, ac mae'n cymryd 25 munud i gerdded oddi yno i'r neuadd. Fel arall, mae tacsis ar gael yng nghanol y ddinas, mae'r prisiau'n amrywio gan ddibynnu ar y pellter a llif y traffig.

Am wybodaeth ynglŷn â theithio ar fws, defnyddiwch y ddolen ganlynol Bws Caerdydd.

# Ar yr M4 o'r Gorllewin

- Gadewch y briffordd wrth gyffordd 32 a dilynwch yr A470 i mewn i Gaerdydd
- **Rhybudd: Mae camerâu cyflymder ar hyd yr A470**
- Wrth agosáu at Gyfnewidfa Gabalfa, arhoswch yn y lôn chwith a pheidiwch â mynd dros y drosffordd
- Bydd hyn yn dod â chi at y gylchfan
- Cymerwch y 4edd ffordd ymadael i'r A48, gan ddilyn arwydd Llety Myfyrwyr Tal-y-bont
- Bron yn syth ar ôl ymuno â'r A48, ewch i'r lôn chwith a pharatowch i droi i'r chwith wrth y set gyntaf o oleuadau traffig, ar Ffordd Excelsior
- Wrth y gylchfan fach, dilynwch yr allanfa gyntaf ac yna'r troad cyntaf i'r dde (mae McDonald's ar yr ochr chwith)
- Trowch bron yn syth i'r dde eto, i'r lôn dde bellaf i gyfeiriad Tal-y-bont
- Gyrrwch i mewn heibio i'r gatiau diogelwch, lle cewch eich cyfeirio at le parcio dros dro tra byddwch yn casglu eich allwedd.

# Ar yr M4 o'r Dwyrain

- Gadewch y briffordd wrth gyffordd 29 a dilynwch yr A48 i mewn i Gaerdydd
- **Rhybudd: Mae camerâu cyflymder ar hyd yr A48**
- Yn union ar ôl yr allanfa ar gyfer Cyfnewidfa Gabalfa, ewch i'r lôn chwith a pharatowch i droi i'r chwith wrth y set gyntaf o oleuadau traffig cyntaf, ar Ffordd Excelsior
- Wrth y gylchfan fach, dilynwch yr allanfa gyntaf ac yna'r troad cyntaf i'r dde (mae McDonald's ar yr ochr chwith)
- Trowch bron yn syth i'r dde eto, i'r lôn dde bellaf i gyfeiriad Tal-y-bont
- Gyrrwch i mewn heibio i'r gatiau diogelwch, lle cewch eich cyfeirio at le parcio dros dro tra byddwch yn casglu eich allwedd

Cewch hyd i'r wybodaeth hon ar y gwefannau canlynol hefyd (CF14 3AT yw'r côd post ar gyfer eich SatNav yw  - dilynwch yr arwyddion ar gyfer Tal-y-bont o hynny ymlaen):

This information can also be found via the following websites (SatNav postcode is CF14 3AT – follow sign posts to Talybont thereafter):

**www.rac.co.uk/route-planner**
**www.theaa.com/travelwatch/planner_main.jsp**

Derbynfa Southgate House cyfeirnod 34 ar y map / De Tal-y-bont cyfeirnod 54 ar y map / Llys Tal-y-bont cyfeirnod 55 ar y map

Southgate House reception map ref 34 / Talybont South map ref 54 / Talybont Court map ref 55

